# SL(6)776 – Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

## Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 18 Chwefror 2026 fel y diwrnod y bydd Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 ("y **Cod**") yn dod i rym.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Er nad yw'r Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn y Senedd, mae'r Cod yn dilyn y weithdrefn a nodir yn adran 100C o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("**Deddf 2000**"). Mae'r Gorchymyn yn cadarnhau y gosodwyd drafft o'r Cod gerbron y Senedd ar 15 Rhagfyr 2025, yn unol ag adran 100C(4) a (5) o Ddeddf 2000.

Yn unol ag is-adrannau (6) a (10) o adran 100C, os bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, a hynny o fewn cyfnod o 40 diwrnod (ac eithrio cyfnodau diddymiad neu doriad o fwy na phedwar diwrnod) sy'n dechrau gyda'r dyddiad gosod, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â'i ddyroddi.

Mae is-adran (8) o adran 100C yn darparu, ymhlith pethau eraill, os na fydd y Senedd yn gwneud penderfyniad o'r fath o fewn y cyfnod o 40 diwrnod, fod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod, a ddaw i rym ar y dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

Gwnaed y Gorchymyn hwn ar 12 Chwefror 2026, sy'n ymddangos fel ei fod yn disgyn ar ddiwrnod 39 o'r cyfnod 40 diwrnod.

Mae rhaglith y Gorchymyn yn cynnwys y datganiadau a ganlyn:

*"Ni **wnaed** penderfyniad o'r math a grybwyllir yn adran 100C(6) o Ddeddf 2000 gan Senedd Cymru o fewn **40 niwrnod** i'r Cod Ymarfer drafft gael ei osod…*

*…**Dyroddwyd** y Cod Ymarfer…ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Senedd, gan Weinidogion Cymru o dan adran 100C(8)(a) o Ddeddf 2000…"* ***[ychwanegwyd pwyslais].***

Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro:

1. y rheswm dros wneud y Gorchymyn hwn yn ystod y cyfnod o 40 diwrnod a ragnodir yn adran 100C o Ddeddf 2000 (ac nid wedi i'r cyfnod hwn ddod i ben);
2. y dyddiad y dyroddodd Gweinidogion Cymru y Cod yn unol ag adran 100C(8)(a) o Ddeddf 2000; ac, yn unol â hynny,
3. a yw Gweinidogion Cymru yn fodlon y cydymffurfiwyd â gofynion Deddf 2000 wrth wneud y Cod.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Mawrth 2026**